

Tystiolaeth Scrapbook Angharad Mai Walters
1902357

Cynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar
ECEY6005C





Cynaliadwyedd
yn y
Blynyddoedd Cynnar
Angharad - 1902357




Darganfod




Wrth gymered dro i lawr i'r Cwm lleol, Rwyf wedi darganfod newid enfawr o bryd roeddwn i'n blentyn ifanc a hyn yw doeddwn i ddim wedi clywed sŵn y adar. Rwy'n cofio o oedran ifanc roedd yna lawer o adar yn y lleoliad yma a dyma'r un o'r rhesymau fwyaf roeddwn i'n hoffi mynd yno am dro. Roedd hyn wedi gwneud i mi deimlo bod rhaid i fi wneud rhywbeth i helpu hyn. Rwy'n teimlo bod llawr o bethau yn gallu cael yw gwneud er mwyn ddenu'r adar yn ôl i'r lleoliad oherwydd yn ifanc rwy'n hefyd yn cofio llawer o fwydwyr adar yn y Cwm ond roeddwn i wedi sylweddoli roedd dim yno y tro yma. Mae gen i lawer o syniadau er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r lleoliad yma oherwydd rwyf am roi profiadau clywed yr holl adar i blant eraill ac mae hyn yn gallu fod yn lleoliad mae pobl yn gallu dod er mwyn ymlacio efo'r holl byd natur o'i amgylch.



Dyma rhai lluniau o beth wnes i ddarganfod
yn y Cwm:



Lle rydych allu darganfod y lleoliad yma...



Mae'r ardal y Cwm yn gallu cael yw darganfod yn Drefach. Mae llawer o bobl yn mynd am dro gyda'i cwn oherwydd mae yna lwybr dros 2 ffilltir. Mae'r Cwm yn dod a llawer o bobl leol efo'i gilydd oherwydd mae'n denu llawer o bobl i fynd am dro yno oherwydd mae'n lle mae pobl yn gallu cerdded neu ymlacio. Mae'r Cwm hefyd yn denu pobl o wahanol ardaloedd o gwmpas Drefach oherwydd mae llawer o bobl yn sôn am ba mor brydferth mae'r llwybr. Mae llawer o cwn yn cerdded trwy'r Cwm hefyd ac mae'n lle iddyn nhw fod yn rhydd.





Sut i helpu denu fwy o adar

- Bwydwyr yn denu mwy o Adar
- Pethau gyda dŵr
- Llefydd i Adar nestio
- Diogon o Lloges
- Defnyddio'r bwydydd cywir
- Adeiladu bocs adar
- Tyfu planhigion sy'n ddiogel i adar
- Bath adar

Rwyf wedi creu poster
er mwyn chodi
ymwybyddiaeth ar sut i
ddenu adar mewn i
leoliad a beth fydd rhaid
gwneud er mwyn ddenu
nhw. Rwy'n gobeithio
wrth roi hyn o amgylch
fy mhentref lleol bydd
fwy o bobl yn sylweddoli
pa mor bwysig mae cael
byd natur yn bwysig ar
gyfer yr amgylchedd.
Rwyf hefyd wedi rhoi'r
poster i fynnu lle rwyf
wedi rhoi'r bocs adar
rwyf wedi creu a ble
rwyf wedi gosod y
bwydwyr ar gyfer y adar
oherwydd bydd y poster
yma yn gwneud i bobl
sylweddoli pam mae'r
pethau yma wedi cael
yw gosod yno.

THE BEAUTY OF NATURE

Exploring and discovering the wild places within the world, Closer to my door step than I would think.

Listening and noticing the sounds of the trees,
Like music to my ears.

The wind through the trees and the music from the birds and the smell of the pine from all the trees,
The most peaceful I've ever felt, and the soothing effect it has on the soul makes me reflect on the world around me.

Angharad Mai Walter

Dyma gerdd rwyf wedi ysgrifennu. Mae'r gerdd yma yn sôn am sut roeddwn i'n teimlo wrth gerdded lawr i'r Cwm lleol a beth roeddwn i'n weld a beth roeddwn i'n arogl. Roeddwn i'n teimlo bod hyn yn beth dda i roi yn y gerdd oherwydd roeddwn i eisiau i bobl teimlo wrth iddyn nhw ddarllen y gerdd bod nhw yn y lleoliad ac yn gallu dychmygu sut roeddwn i'n teimlo ar y pryd. Rydw i hefyd wedi gwneud e yn ffordd bydd pobl yn teimlo bod nhw yn gallu ymlacio oherwydd mae'r gerdd yn sôn am y pethau hardd am y byd natur. Rwy'n gobeithio hefyd wrth i bobl darllen y gerdd yma bydd ên gwneud iddyn nhw eisiau mynd allan i'r byd natur er mwyn gwerthfawrogi peth sydd o'i amgylch ar holl bethau byd natur sydd yno hefyd. Mae byd natur yn bwysig iawn yn fywyd pawb oherwydd heb byd natur bydd ên amhosib i ni fyw a dyma pam rwy'n teimlo bod ên mor bwysig i edrych ar eu hól cyn bod ên rhy hwyr.



Gwarchod



Beth rwyf wedi gwneud er mwyn ddenu byd natur:


Er mwyn gwella'r lleoliad rwyf wedi prynu bwydydd adar er mwyn ddenu fwy o adar yno. Rwyf hefyd wedi creu bocs adar er mwyn gwneud yn siŵr bod yr adar yn teimlo'n ddiogel. Rydw i hefyd wedi prynu bath adar. Roeddwn i wedi mynd ati yn gyntaf i wneud ymchwil mewn i beth oedd yn helpu denu adar i ardal a dyma beth roeddwn i wedi darganfod felly rwyf wedi gwneud y pethau yma wrth obeithio bydd hyn yn helpu'r byd natur. Rwyf hefyd wedi darganfod wrth wneud ymchwil, mae gwell gan adar bath adar bach na rhai mawr oherwydd maen nhw'n teimlo'n fwy diogel. Bydd y pethau yma hefyd yn helpu denu byd natur eraill. Rwyf am fynd nol i'r lleoliad mewn 1-2 diwrnod i weld os mae yna wahaniaeth.



Rhanner



Wrth wneud y bwydydd adar a rhoi'r pethau yma i lawr yn y cwm roedd fy nghefnder wedi helpu fi gwneud y pethau yma, eu hoedran yw 8 ac roedd hi'n meddwl bod hyn yn rhywbeth diddorol iawn. Roedden i hefyd wedi esbonio Iddi hi am pam mae'n bwysig gwneud hyn. Roeddwn i wedi gwneud yn siŵr i esbonio yn ffordd sensitif i berson o oedran mor ifanc oherwydd mae beth sydd yn digwydd yn y byd yn gallu fod yn ofnus. Bydd hyn yn rhywbeth bydd fi a fy nghefndir yn cadw ati i wneud oherwydd rwy'n teimlo bod hyn wedi helpu'r byd natur a hefyd chreu perthynas fwy agos gyda fi a fy nghefnder.



Sut i't denu Adar?



- Defnyddio'r bwydydd cywir



- Lleoliad mae'r Adar yn gallu ymlacio e.e Bath Adar



- Lleoliad er mwyn chadw'r bwyd yn saf ar gyfer y adar e.e bocs adar



- Lleoliad ddiogel ar gyfer nestio



Rydw i wedi creu poster i'w roi ar gyfryngau cymdeithasol hefyd sy'n esbonio ac yn dangos beth i'w wneud i ddenu mwy o adar i leoliad. Yn hyn rwyf wedi gwneud yn siŵr fy mod wedi defnyddio lliwiau a lluniau llachar i allu tynnu pobl i'w stopio a'i ddarllen. Rwyf wedi dewis rhannu hyn ar-lein gan y bydd hyn yn cyrraedd mwy o bobl gan gynnwys pobl nad ydynt yn byw yn fy ardal. Teimlaf fod hyn yn syniad da gan y gallai pobl ei rannu ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a bydd y gair yn mynd o gwmpas a byddai hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o sut i helpu natur a sut y gallwn ni fel pobl wneud newid enfawr o fewn y byd.



Dyma stori rwyf wedi creu wrth ddefnyddio fy
nheimpladau wrth i mi weld unrhyw sbwriel yn
y byd natur ac rwyf wedi rhoi teimpladau fy
hunan o bersbectif y bywyd sydd yn byw yn y
byd natur a sut mae hyn yn gwneud iddyn
nhw deimlo wrth orfod byw gyda llawer o
sbwriel o'u hamgylch.





stori'r pili-pala unig




Un dydd aeth Lowri a'i ffrindiau am dro lawr y llwybr gwyrdd.
Roedd Lowri a'i ffrindiau yn mor cyffroes.
Roedd gan bawb wen ar eu wyneb.



Roedd Lowri a'i ffrindiau yn cerdded i lawr y llwybyr lle'r oedd Lowri wedi sylwi ar pili-
pala piws , eu henw oedd Harmoni.
Roedd Lowri wedi sylweddoli bod Harmoni yn edrych yn drist iawn felly aeth Lowri i
siarad efo hi.



"Beth sy'n bod" Dywedodd Lowri.
"Mae'r Plastig i gyd yn gwneud i fi'n teimlon drist oherwydd yr effaith mae'n cael ar fy
holl ffrindiau" atebodd Harmoni.



"Rydw i a fy ffrindiau yn gallu helpu ti i lanhau'r sbwriel, mae gennym ni i gyd bagiau lle ni gallu rhoi'r sbwriel er mwyn rhoi yn y bin" Dywedodd Lowri.



Gyda wen ar ei wyneb dywedodd Harmoni "Oh bydd hwnna help enfawr i fi a fy ffrindiau, Diolch Lowri"

Dechreuodd Lowri a'i ffrindiau glanhau'r holl sbwriel oddi ar y llawr.
Roedd Harmoni yn gwenu o glust i glust oherwydd yr help oedd hi'n dderbyn.



Roedd y sbwriel i gyd wedi cael yw rhoi yn y bin a nawr mae Lowri a'i ffrindiau yn mynd am dro yn gwybod bod nhw wedi gwneud gwahaniaeth yn y byd wrth roi'r holl sbwriel yn y bin, a hefyd maen nhw wedi gwneud i Harmoni teimlon hapus eto.



Roedd Harmoni wedi dychwelyd i'r coedwig i weitho eu ffrindiau am beth roedd Lowri
a'i ffrindiau wedi gwneud.
Roedd Lowri a'i ffrindiau wedi dychwelid adref yn hapus ar ôl cael hwyl wrth mynd ar
eu dro.



Y Diwedd

SPOT THE BUG

BUG	NAME	NUMBER
	ANT	
	BEE	
	BUTTERFLY	
	CATERPILLAR	
	MOTH	
	GRASSHOPPER	
	LADYBIRD	
	SNAIL	
	SPIDER	
	WASP	
	WORM	

